**COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG O BWYLLGOR CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT PRIFYSGOL CARDIFF A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH**
**11 AWST 2020 TRWY ZOOM**

Yn Bresennol: Yr Athro Karen Holford (Cadeirydd), Michelle Aldridge-Waddon, Michelle Alexis, Venice Cowper, Kathryn Davies, Georgie East, Dr Sam Hibbitts, yr Athro Tim Phillips, Helen Obee Reardon a Cadi Thomas.

Hefyd yn bresennol: Julie Bugden, Jane Chukwu, Karen Harvey-Cooke, Susan Cousins, Elaine Howells (ar ran Matthew Williamson), Gareth Hughes, Rashi Jain, Michelle Jones, Catrin Morgan, Helen Mullens [hyd at gofnod 726.4], Charlotte Shand, Gail Thomas a Geoff Turnbull.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Rudolf Allemann, yr Athro Gary Baxter, yr Athro Kim Graham, Claire Morgan, Jude Pickett, Claire Sanders, yr Athro Damian Walford Davies a Matthew Williamson.

722 **CROESO**

NODWYD Y CANLYNOL

.1 mae’r Cadeirydd wedi agor y cyfarfod ac yn croesawu aelodau newydd i'r Pwyllgor;

.2 mae’r Cyfarfod Arbennig hwn o'r Pwyllgor wedi cael ei drefnu yn dilyn cyfarfod olaf y sesiwn flaenorol i ystyried Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gall COVID-19 a'r ffordd newydd o weithio gael effaith ar weithgareddau;

.3 byddai cofnodion y Cyfarfod Arbennig hwn a'r cyfarfod cyffredin ar 12 Mai 2020 yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 7 Hydref 2020.

723 **AELODAETH**

Derbyniwyd papur 20/02, 'Aelodaeth Pwyllgor ED&I'.

**PENDERFYNWYD Y CANLYNOL**

cyfethol Is-Lywydd Myfyrwyr Ôl-radd, Undeb y Myfyrwyr i'r Pwyllgor am gyfnod o flwyddyn.

724 **MESURAU EFFAITH COVID-19 AR AMGYLCHEDD GWAITH AR GYFER STAFF**

Derbyniwyd papur 20/03, 'Mesurau effaith Covid-19 ar yr Amgylchedd Gwaith ar gyfer staff' a chyflwyniad gan Helen Obee Reardon, Cadeirydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau.

NODWYD Y CANLYNOL

724.1 mae trafodaethau cychwynnol a gynhaliwyd ynghylch effaith COVID-19 mewn perthynas â rhyw yn tynnu sylw at y ffaith bod amrywiadau mewn profiadau a bod potensial i anghydraddoldebau gynyddu;

724.2 mae prosiect i archwilio'r effaith ar staff, sy’n rhoi ystyriaeth i groestoriadoldeb ac yn edrych ar sut y gallent gael eu cefnogi, wedi' cael ei ddatblygu. Bydd 'Ein Straeon, Prosiect Gwrando: effeithiau cydraddoldeb COVID-19' yn galw i ddechrau ar staff i rannu eu straeon, i wrando a dadansoddi eu profiadau i helpu i ddatblygu canlyniadau a ffyrdd y gellir cefnogi staff;

724.3 bydd y prosiect yn cael ei lansio ar 21 Medi. Y cynllun cyfredol yw i'r wybodaeth gael ei defnyddio i ddatblygu pecynnau cymorth a gwella prosesau a gweithdrefnau er y cydnabyddir y gellir cyflwyno gweithgareddau eraill wrth i’r gwaith dadansoddi ddigwydd;

724.4 cafodd y prosiect ei groesawu gan y pwyllgor. Cafwyd trafodaeth am yr angen i'r gwaith hwn gael ei gefnogi'n llawn gan grwpiau eraill, megis Tasglu COVID-19 a Grŵp Gweithrediadau Seilwaith a chanlyniadau wedi'u hymgorffori yn y Brifysgol;

724.5 y pwyntiau eraill a godwyd oedd:

- ni fwriadwyd i'r prosiect hwn ddisodli unrhyw achwyniad neu gŵyn i'r Brifysgol ond roedd angen ystyried sut y câi cwynion difrifol eu trin
- mae angen ystyried sut y byddai canlyniadau'n cael eu monitro
- mae angen i'r cais estyn allan at staff ar bob lefel a chyda'r holl brofiadau (gweithio gartref, staff ar ffyrlo, staff gweithredol ar y campws) a derbyniwyd cynigion o gymorth
- cynigiwyd y dylai Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol weithio gyda Chadeirydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau;

724.6 mae Cadeirydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau wedi cytuno i drafod y prosiect hwn, gyda chynigion Undeb y Myfyrwyr i lywio unrhyw benderfyniad gan Undeb y Myfyrwyr i ddatblygu prosiect tebyg.

## 725 DIWEDDARIAD AR ASESIADAU EFFAITH CYDRADDOLDEB (EIA) y TASGLU

Derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Catrin Morgan, Pennaeth Cydymffurfio a Risg Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol.

NODWYD Y CANLYNOL

725.1 mae templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEA) byrrach wedi'i ddatblygu i symleiddio'r broses yng ngoleuni'r nifer o AEA y mae'n ofynnol i grwpiau Tasglu COVID-19 ymgymryd â hwy;

725.2 hyd yma mae tuag 20 EIA wedi'u cyflawni fel rhan o'r broses hon ac ymhlith y pwyntiau allweddol a oedd wedi codi oedd y canlynol:

- roedd effaith fawr ar y sawl â dyletswyddau gofalu
- roedd hygyrchedd corfforol a digidol yn ystyriaeth gyson
- o fewn ymchwil bu gwahaniaeth amlwg ar yr effaith mewn perthynas â rhyw (roedd cyhoeddi a dyfynnu academyddion benywaidd wedi gostwng)
- ni chyfeiriwyd yn benodol yn y polisi bob tro at fwriad i ddarparu ar gyfer hyblygrwydd cymhwyso yn seiliedig ar angen penodol o fewn EIAs. arweiniodd hyn at ddiffyg eglurder ynghylch yr hyblygrwydd y gellid ei ddisgwyl neu sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol
- weithiau roedd amharodrwydd i fanylu ar unrhyw effaith bosibl a oedd yn parhau i fod yn heriol neu na ellid ei lliniaru'n llawn. Nodwyd, hyd yn oed pan nad oedd y Brifysgol yn gallu lliniaru effaith yn llawn, roedd cydnabod bod effaith yn bodoli yn bwysig;

725.3 cafwyd adborth cadarnhaol gan y grwpiau bod EIAs wedi helpu i nodi materion na fyddai wedi cael sylw trwy ddulliau eraill a bod cael amrywiaeth meddwl o fewn grwpiau o'r fath o fudd sylweddol;

725.4 cynhaliwyd trafodaeth ar effeithiau newydd sefyllfa COVID-19 ar wahanol grwpiau gan gynnwys statws economaidd-gymdeithasol, trefniadau domestig unigolion (megis sefyllfaoedd cartrefi a thlodi digidol) a myfyrwyr rhyngwladol;

725.5 roedd yr EIAS terfynol yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd a byddai dolen i'r dudalen hon yn cael ei chylchredeg.

## 726 DIWEDDARIAD AR GEFNOGI A LLES MYFYRWYR

derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Gareth Hughes, Pennaeth Iechyd a Lles.

NODWYD Y CANLYNOL

726.1 mae’r angen i ganolbwyntio ar symud y gwasanaethau a ddarperir gan Gefnogi a Lles Myfyrwyr i ddarpariaeth ar-lein/o bell wedi cael effaith ar gynnydd ar gamau gweithredu SEP;

726.2 mae’r galw am gefnogaeth mewn perthynas â materion iechyd meddwl yn is nag a welwyd ar gyfer cyfnod tebyg mewn blynyddoedd blaenorol ond roedd y gefnogaeth a geisiwyd ar gyfer materion mwy difrifol;

726.3 mae blaenoriaethau, cyfleoedd a gweithgareddau newydd wedi dod i'r amlwg mewn ymateb i'r sefyllfa a'r newid yn y galw am y gwahanol wasanaethau a gynigir, gan gynnwys:

- gweithio'n agos gyda phartneriaid cymunedol ym maes iechyd meddwl a'r clwstwr meddygon teulu
- cynhyrchu platfform ymgyfarwyddo ar-lein ar gyfer myfyrwyr newydd gydag amrywiaeth o adrannau perthnasol gan gynnwys EDI, ehangu cyfranogiadau ac arweiniad i Fyfyrwyr Rhyngwladol

726.4 bydd mwyafrif y sesiynau/apwyntiadau yn cael eu cynnal yn rhithwir, gydag apwyntiadau wyneb yn wyneb yn digwydd pan fo angen yn amodol ar bellter cymdeithasol ac asesiadau risg;

726.5 byddai'r rhaglenni Bywyd Preswyl a mentoriaid cymheiriaid ar blatfform digidol. Cynhaliwyd trafodaeth ar bwysigrwydd sicrhau y cysylltir â phob myfyriwr a bod angen rhoi gofal mewn perthynas ag unrhyw fylchau yn y gwasanaeth. Dywedodd SU fod trafodaethau wedi digwydd ynghylch sut y gallai cymheiriaid ddarparu cefnogaeth o dan yr amgylchiadau hyn;

726.6 bu ton gychwynnol o fyfyrwyr Rhyngwladol yn gofyn am gefnogaeth cyn y 'polisi dim anfantais' ond ni fu cynnydd amlwg yn nifer y myfyrwyr BAME a oedd yn ceisio cefnogaeth yng ngoleuni'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys. Byddai Cefnogi a Lles Myfyrwyr yn adrodd ar ddadansoddiad o ddata i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf;

726.7 mae galw myfyrwyr yn parhau i fod yn fwy na’r adnoddau trwy'r flwyddyn. Yn ddiweddar, rhoddwyd cyllid ar gael ar gyfer staff rheng flaen; gweithiwr 1.5 cyfwerth ag amser llawn yn y tîm cwnsela, gweithiwr 1.4 cyfwerth ag amser llawn yn y tîm lles a gweithiwr 0.6 cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y Tîm Ymateb Datgelu. Y flaenoriaeth yw penodi staff â chymwysterau a phrofiad priodol o ystyried y galw;

726.8 roedd neges glir o sicrwydd i fyfyrwyr y byddai cefnogaeth ar gael yn rhwydd.

727 **ADOLYGU BLAENORIAETHAU AR GYFER CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL**

Cafwyd diweddariad ar lafar gan Catrin Morgan. Pennaeth Cydymffurfiaeth a Risg Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol, Karen Harvey-Cooke: Rheolwr Datblygu Staff Sefydliadol, Dr Sam Hibbitts: Deon EDI, Julie Bugden: Swyddog EDI a Geoff Turnbull, Dirprwy Gyfarwyddwr Ystadau (Gweithrediadau).

NODWYD Y CANLYNOL

727.1 <u>Amcan 1</u>

.1 ni fu llawer o gynnydd ar y camau sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm Cynhwysol oherwydd bod staff allweddol yn cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer ymateb i effaith COVID 19, fodd bynnag, gwnaed gwaith ynglŷn â hygyrchedd digidol ac mae enghreifftiau

o bocedi o arfer da ar lefel ysgol e.e. roedd yr Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a Chefnfor wedi gweithredu ar y pwnc hwn;

.2 mae angen ystyried ymhellach yr hyn a ddeuai o fewn ystyr 'Cwricwlwm Cynhwysol' ac alinio'r gwaith hwn â grwpiau cyfredol (e.e. gweithgor Bwlch Dyfarnu BAME) a'r gweithgaredd yn y Gofrestrfa ac Ehangu Cyfranogiad;

.3 mae gwaith rhagarweiniol wedi'i wneud ar y modiwl EDI myfyrwyr ac mae cynnwys sgerbwd wedi'i baratoi ar gyfer ymgynghori arno â rhanddeiliaid o gwmpas y Brifysgol;

.4 nid oedd gwaith ar y polisi derbyn cyd-destunol wedi'i ddatblygu gan fod gwaith arall wedi'i flaenoriaethu; fodd bynnag, mae Ehangu Cyfranogiad wedi cymryd camau breision gan gynnwys:

- Mae prosiect Darganfod wedi symud ar-lein o ganlyniad i COVID19. Cyflwynwyd rhaglen haf trwy Minecraft a bydd yn cynhyrchu adroddiad gwerthuso ym mis Medi 2020

- Recriwtiwyd Rheolwr Strategaeth Ehangu Cyfranogiad a Gwerthuso, sy'n gweithio gyda Derbyniadau i gynhyrchu data i sefydlu rhaglenni ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau

- Crëwyd tîm bach i ganolbwyntio'n benodol ar Bontio ar gyfer grwpiau agored i niwed, gan gynnwys Myfyrwyr Aeddfed. Bydd digwyddiad croeso i Fyfyrwyr Aeddfed yn cael ei gyflwyno yn rhithwir ym mis Medi 2020

- Mae gweithgareddau Allgymorth Cymunedol yn cael eu hadolygu yn dilyn y pandemig

- Byw'n Lleol y Brifysgol: Mae rhaglen Byw'n Lleol:Dysgu'n Lleol y Brifysgol yn cael ei hadolygu gyda'r bwriad o symud i blatfform digidol ;

.5 Mae'r Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME yn cyfuno'r dystiolaeth o adroddiad #closingthegap, gan alinio â data ansoddol Prifysgol Caerdydd ac allbynnau o'r gynhadledd uwch aelodau o staff i ddatblygu'r cynllun gweithredu a fydd ar gael yn 20/21. Bydd y cynllun gweithredu'n bwydo i Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol y Brifysgol, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i gydlynu a monitro'n erbyn y mesurau canlyniad cytûn.

.6 Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar gamau Cefnogi Myfyrwyr fel rhan o'r diweddariad gan Gareth Hughes (uchod)

727.2 Amcan 2

.1 mae dadansoddiad o'r data ar gyfer ceisiadau wedi cael eu datblygu ac mae Cadeirydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol wedi cydweithredu ar y broses o wneud ceisiadau'n ddienw;

.2 mae gan yr hyfforddiant Deall Rhagfarn Anymwybodol gyfradd gwblhau o 57% a gallai fod angen adolygu amserlenni wrth recriwtio ar gyfer ymchwil, yn enwedig ar ôl i'r Brifysgol ymuno â DORA;

.3 mae'r Archwiliad Cyflog Cyfartal wedi cael ei baratoi a byddai'r Grŵp Cydraddoldeb mewn Gwobrwyo bellach yn ei ystyried;

.4 mae Grŵp Amrywiaeth mewn Arweinyddiaeth wedi cael ei sefydlu ac mae chwe chyfranogwr o'r Grŵp Datblygu Hyrwyddiadau Academaidd i fenywod a/neu staff BAME wedi cael dyrchafid ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer yr ail garfan ac ar gyfer ceisio sefydlu hybrid ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a staff academaidd;

.5 bydd y Strategaeth Lles yn cael ei lansio ym mis Medi ac mae Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn gweithio'n dda ac mae chafodd y cyfres o weminarau Care First trwy gydol y cyfnod o weithio o bell groeso mawr.

727.3 Amcan 3

.1 mae cydran allweddol o'r amcan hwn yn dibynnu ar wasanaethau darparwr allanol. Roedd llawer o'u gweithgaredd yn seiliedig ar gyflenwi wyneb yn wyneb ac roedd y modd yr oeddent yn gallu darparu eu gwasanaethau o fewn y sefyllfa bresennol y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol;

.2 byddai angen ystyried yr hyn yr oedd angen ei flaenoriaethu fel rhan o'r amcan hwn, a'r goblygiadau ariannol;

.3 Mae'r REF wedi cael ei ohirio tan 2021 a chynhaliwyd EIAs ar y broses.

727.4 Amcan 4

.1 er mai ychydig o gynnydd a wnaed ar y cam gweithredu ynghylch yr amgylchedd ffisegol, gwnaed llawer iawn o waith mewn perthynas â myfyrwyr a staff yn dychwelyd i'r campws ar ôl y cyfnod clo, ac y byddai gwaith yn parhau i gael ei wneud ar hyn trwy'r flwyddyn academaidd sydd i ddod;

.2 yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol, roedd adnoddau'n cael eu hadolygu a thasgau'n cael eu dyrannu'n fewnol pan fo hynny'n bosibl;

.3 mae gwaith cydweithredol yn cael ei wneud gyda'r Cofrestrydd Academaidd mewn perthynas ag ymgyfarwyddo ac â theithiau rhithwir a chorfforol o'r campws;

.4 mae gwaith wedi symud ymlaen ar hygyrchedd digidol, yn benodol cafodd dyluniad symudol-gyfeillgar ei ddarparu;

.5 mae'r Brifysgol bellach yn aelod o'r Fforwm Anabledd Busnes a byddai gwaith yn cael ei ddatblygu gyda nhw i adolygu prosesau ac arferion y Brifysgol;

.6 gwnaed awgrym y dylid gwahodd aelod o TG ag arbenigedd hygyrchedd digidol i gymryd rhan ym Mhwyllgor EDI a byddai hyn yn cael ei ystyried cyn y cyfarfod nesaf.

727.5 Amcan 5

.1 roedd Ysgrifennydd y Brifysgol (dros dro) yn bwrw ymlaen â'r cam gweithred hon yn unol ag argymhelliad Grŵp Ysgrifenyddion a Chlercod Cymru ac roedd galwadau cyfredol am enwebiadau yn cynnwys geiriad cynhwysol i annog enwebiadau o bob grŵp;

.2 roedd templed a chanllawiau EIA newydd yn cael ei ddatblygu a y byddai'n cael ei gyflwyno ynghyd ag hyfforddiant cysylltiedig.

727.6 byddai perchnogion gweithredu yn gyfrifol am adolygu gweithredoedd cyn yr adroddiad blynyddol terfynol ar gamau i'w hystyried gan y Pwyllgor ym mis Ionawr ac i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol ar gyfer y cynllun gweithredu newydd;

727.7 roedd perchnogion camau gweithredu hefyd yn gyfrifol am hysbysu deiliaid cyllideb am unrhyw oblygiadau ariannol ac am gyflwyno ceisiadau trwy'r sianelau arferol.

728 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

NODWYD dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Hydref 2020 am 10:00